**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) i egwyddorion cyffredinol y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)](#)**

**This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) inquiry into the general principles of the [Tertiary Education and Research (Wales) Bill](#)**

**TER 07**
**Ymateb gan: Mudiad Meithrin**
**Response from: Mudiad Meithrin**

Mae Mudiad Meithrin yn gymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg. Ein nod yw creu siaradwyr Cymraeg newydd, ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg i bob plentyn, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Ers 1971 rydym wedi tyfu'n aruthrol. Erbyn heddiw mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant', sesiynau 'Clwb Cwtsh' a Meithrinfeydd dan faner y Mudiad Meithrin sydd yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i tua 22,000 o blant bob wythnos.

Rydyn ni wedi cymhwyso dros 3500 o unigolion yn uniongyrchol i'n gweithlu cyfrwng Cymraeg gyda chymwysterau Gofal Plant, a hynny drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam. Mae'r Mudiad yn ganolfan wedi ei hachredu a'i hadnabod gan WJEC a City and Guilds yn ogystal â CACHE ar gyfer darparu yr ystod lawn o gymwysterau ôl-14 ac ôl-16.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chyngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd a'r meithrinfeydd. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft cefnogaeth fusnes, cymwysterau a recriwtio staff, hybu arfer da, hyfforddiant staff a chyd-weithio ag Awdurdodau Lleol.

**Diben y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, fel y corff rheoleiddio annibynnol sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng

Nghymru, bydd addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a'r chweched dosbarth.

**Cylch gorchwyl yr Ymgynghoriad**

Ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir.

**Ymateb Mudiad Meithrin**

1. Mae Mudiad Meithrin yn croesawi sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Y Comisiwn) fydd yn gweithredu fel corff rheoleiddio sydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.
2. Mewn egwyddor, rydym yn cytuno gyda'r naw dyletswydd strategol sydd yn Rhan 1 o'r Bil. Maent i weld yn cyd-fynd gydag anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau Cymru a'r 7 nod sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
3. Yn benodol, croesawn y ddyletswydd strategol a osodwyd ar y Comisiwn i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Er mwyn medru annog pobl i fanteisio ar addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg rhaid sicrhau gosod targedau pendant i ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a hefyd ar gyfer darparwyr eraill a gyllidir neu a sicrheir fel arall gan y Comisiwn. Nodwn yr angen felly i sicrhau bod y ddyletswydd i 'gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol' yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r 9 dyletswydd strategol arall a nodir yn y Bil.
5. Fel Mudiad, rydym yn barod i gynorthwyo ac i gefnogi strategaethau lleol a chenedlaethol yn y maes hwn. Mae Mudiad Meithrin ers 2004 yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr eraill i ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol sy'n eu galluogi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes gofal plant ac addysg gynnar. Rydym yn cyd-weithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau ar gyfer myfyrwyr 14 - 19 oed; darparwn gyfleon prentisiaeth drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol, ac mae sawl model gwahanol o gydweithio yn bodoli gyda darparwyr a sefydliadau eraill er mwycynnig cyfleoedd i'r gweithlu a staff y Mudiad ei hun er mwyn cymhwyso, uwchsgilio a dysgu.

6. Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn hyrwyddo dysgu gydol oes i bobl Cymru drwy ddarparu ystod o gyfleoedd addysgol a hyfforddiant. Mae disgwyl i’r Comisiwn rhoi’r un gwerth i ddysgu galwedigaethol ac academaidd, dysgu llawn amser a rhan-amser, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, wyneb yn wyneb ac o bell, a lleoliadau seiliedig ar waith. Mae gan adran hyfforddiant Mudiad Meithrin flynyddoedd o brofiad o ddarparu hyfforddiant cymwysedig yn ogystal â chynnal cyrsiau byr ar gyfer datblygiad proffesiynol y gweithlu ac edrychwn ymlaen at weld sut y byddwn yn medru cyd-weithio gyda’r Comisiwn. O’i brofiad helaeth cred Mudiad Meithrin y dylai’r comisiwn sicrhau fod cyfleoedd i ddysgu a chymhwyso yn hygyrch, yn apelio at ystod eang o oedrannau ac yn cydfynd â gofynion bywyd a gwaith y dysgwr.
7. Mae Mudiad Meithrin yn cytuno gyda’r cysyniad o sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. Er hynny, gan fod y term ‘addysg drydyddol’ yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg oedolion yn y gymuned, addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol mae angen sicrhau nad yw darparwyr llai eu maint yn cael eu hanghofio wrth ddatblygu’r gweithdrefnau.
8. Mae sicrhau ansawdd darpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru yn hollbwysig. Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan bob darparwr addysg drydyddol gofrestredig a chan y darparwyr hynny sy’n cynnig darpariaeth addysg uwch ar ran darparwyr sydd wedi eu cofrestru â’r Comisiwn. Rhaid sicrhau niferoedd digonnol o aseswyr sydd yn medru cynnal yr asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau nad yw darparwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais mewn unrhyw drefniadau asesu.
9. Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eisoes yn cyd-weithio gyda nifer helaeth o ddarparwyr addysg drydyddol y sectorau addysg bellach addysg uwch ledled Cymru sydd yn cynnig cyfleoedd addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg (a dwyieithog) yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Byddai cyd-weithio gyda nhw i sefydlu trefniadau goruchwylio ac arweinyddiaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ( a dwyieithog) yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru yn ffordd o ddatblygu’r maes ymhellach.
10. Mae Mudiad Meithrin yn cytuno y dylai’r Comisiwn cyllido addysg drydyddol, a gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gynhelir gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a pwysleisiwn eto yr angen i’r Comisiwn sicrhau nad yw darparwyr llai eu maint yn cael eu hanghofio wrth ddatblygu’r gweithdrefnau ariannol

11. Rydym yn croesawi'r ffaith bod y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed. Rydym yn gobeithio bod y ddyletswydd hon yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod y cyfleusterau hyn i bawb, gan gynnwys y sawl sydd yn dilyn cyrsiau a chynlluniau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.
12. Mae'n bwysig nodi bod sicrhau darpariaeth ddigonol o gyfleoedd astudio holl ystod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o weithredu'r ddyletswydd statudol i 'gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol'. Gall hyn olygu y bydd rhaid i'r Comisiwn ystyried cyllid ychwanegol ar gyfer darparwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn eu galluogi i ddarparu'r cyfleusterau, staff ac adnoddau i'r un safon ag sydd ar gael yn y Saesneg.
13. Yn ychwanegol, rhaid sicrhau nad yw dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael anawsterau mewn mynychu unrhyw ddarpariaeth. Bydd angen sicrhau gweithdrefnau clir a chadarn i sicrhau bod y dysgwyr yn medru derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i fanteisio ar yr hyfforddiant. Bydd angen ystyried sut mae gweithredu hyn yn dilyn gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
14. Mae ymchwil cyfredol o ansawdd yn hollbwysig. Mae gan Gymru rhwydwaith o ymchwilwyr proffesiynol sydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg (e.e. prifysgolion, sefydliadau ymchwil pwrpasol) ac mewn cwmnïau annibynnol.
15. Byddai gosod disgwyliadau ar ymchwilwyr i gynnal, cyhoeddi, a rhannu canfyddiadau eu gwaith ymchwil yn Gymraeg yn helpu tyfu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws meysydd academaidd. Byddai hefyd yn ffordd o annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno'i phwnc i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr a myfyrwyr.
16. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Llunio Dyfodol Cymru:Defnyddio cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd ein cenedl' yn Hydref 2021 yn nodi gosod targedau ynghylch cynyddu'r canran o oedolion o oed gweithio yng Nghymru oedd wedi'u cymhwyso i lefel 3 neu uwch erbyn 2050 a hefyd sicrhau y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16 – 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
17. Rydym yn teimlo y bydd rhaid annog y sector addysg drydyddol draddodiadol i gyd-weithio gyda darparwyr arbenigol Cymraeg, megis adran hyfforddiant Mudiad Meithrin i sicrhau eu bod yn medru cynnig cynllun hyfforddiant a phrentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i sectorau penodol. Cyfeiriwn eto

at ein llwyddiant wrth hyfforddi unigolion i weithio ym maes gofal plant ac addysg gynnar, gyda dros 3500 wedi cymhwyso drwy ein cynlluniau. Rydym yn parhau i gyd-weithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau ar gyfer myfyrwyr 14 - 19 oed, ac rydym yn barod i ymestyn y partneriaethau hyn yn y dyfodol. Bydd rhaid cyd-weithio gyda darparwyr arbenigol Cymraeg, megis adran hyfforddiant Mudiad Meithrin a lleoliadau gofal ac addysg gynnar megis cylchoedd meithrin a meithrinfeydd dydd i sicrhau medru cynnig cynllun hyfforddiant a phrentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar.

18. Mae her hanesyddol ym maes cymhwyso, cyflogi a chadw staff Gofal Plant cyfrwng Cymraeg. Mae'r her yn dwysau oherwydd gwasgfa o nifer o gyfeiriadau. Bydd angen sicrhau buddsoddiad sylweddol a chynnig nifer o opsiynau cymhwyso amrywiol ar gyfer gweithlu amrywiol y sector Gofal Plant cyfrwng Cymraeg. Mae angen opsiynau heblaw prentisiaethau sydd yn diwallu'r galw presennol ar gyfer ymarferwyr, gyda'r gallu i ystyried gweithgareddau dysgu blaenorol wrth gymhwyso. Mae'r heriau yn fwy nag erioed ers cyhoeddi cytundeb cydweithio'r Blaid Llafur a Phlaid Cymru yn sgil yr ymrwymiad i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant 2 flwydd.
19. Bu ymgynghoriad ar y C*anllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru: Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith* ym mis Gorffennaf 2021. Er yr oedd y canllaw yn cyfeirio at y galw gan gyflogwyr am gyflogai sydd yn siarad Cymraeg nid oedd yn manteisio ar y cyfle i egluro buddiannau datblygu eu sgiliau Cymraeg, un ai yng nghyd-destun eu gyrfaoedd yn y dyfodol neu o safbwynt y buddiannau i gyflogwyr yng nghyd-destun cynnig gwasanaeth dwyieithog. Byddai'n fanteisiol petai'r Comisiwn yn medru sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar gyfer disgyblion ysgol, er mwyn sicrhau cysondeb yn y disgwyliadau ar draws y sefydliadau sydd yn darparu i ddysgwyr o'r un oed.
20. Byddai datblygu fframwaith prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau lefelau 1 i 6, yn unol â swyddogaeth y Comisiwn fel y'i nodir ym mharagraff 113 o'r Bil, yn ffordd o sicrhau cyflenwad digonol o aelodau newydd i'r gweithlu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar, tra hefyd yn cyfrannu tuag at sicrhau bod 75% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru wedi'u cymhwyso i lefel 3 neu uwch.
21. Fel sefydliad sydd yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd yn cefnogi lleoliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, rydym yn pwysleisio'r angen i sicrhau gallu dysgu a dilyn prentisiaethau yn y Gymraeg. Mae hyn yn bwysig waeth faint o unigolion sy'n dewis dilyn y cwrs yn yr Iaith

honno, a bod y cyrsiau ar gael yn lleol i'r unigolion - a sicrhau nad yw unigolion sydd yn dewis dilyn prentisiaeth rwy gyfrwng y Gymraeg o dan unrhyw anfantais hyfforddi nac yn ariannol oherwydd goblygiadau teithio ayb. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau cynydd yn nifer y dysgwyr sydd yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

22. Yn ychwanegol, rydym yn pwysleisio'r angen i hyrwyddo'r Gymraeg fel mantais wrth ddilyn prentisiaeth, gan fod nifer fawr o'r cyfleoedd yn rhai sydd yn paratoi unigolion ar gyfer swyddi rheng blaen yn delio'n uniongyrchol a'r cyhoedd.
23. Er mwyn gweithredu'r ddyletswydd strategol a osodwyd ar y Comisiwn i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd rhaid sicrhau fod gan ddarparwyr prentisiaethau nifer digonol o diwtoriaid ac aseswyr cymwys ar gael i ddysgu a gwirio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen gosod disgwyliad i hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i unigolion, nid yn unig i'r sawl sydd wedi dewis dilyn prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd i'r sawl sydd heb eto ddewis eu llwybr dysgu / hyfforddi, mewn nosweithiau agored a digwyddiadau hyrwyddo sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr.
24. Mae'r Bil yn nodi y bydd y Comisiwn yn gyfrifol am 'ddiogelu buddiannau personau sy'n ymgymryd â chwrs perthnasol os bydd y cwrs yn peidio â chael ei ddarparu am unrhyw reswm' (Paragraff 122 (1) (a)). Gan ystyried y ddyletswydd strategol i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod darparwyr yn darparu cyrsiau a chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg ac nid yn cynnig y ddarpariaeth ac yna'i diddymu oherwydd diffyg niferoedd.
25. Yn ogystal â tharged amlwg Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg, un o Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae angen ystyried y Gymraeg, a chymunedau ble mae'r Gymraeg yn ffynnu yn flaengar wrth weithredu'r Bil hon.
26. Rhaid sicrhau bod ystyriaethau am effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac ar beidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael eu hystyried yn ffactorau annatod wrth ddatblygu a gweithredu'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.